

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
09 Tachwedd 2021

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i ddod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fewn cwmpas y safonau penodedig hynny a galluogi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i wneud hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau hyn sy'n diwygio Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 i gael eu gwneud yn adrannau 26, 27, 39 a 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur").

Mae adran 26 o'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu'r safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gynnwys safonau gweithredu, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hyrwyddo a safonau cadw cofnodion.

Mae adran 27 o'r Mesur yn darparu pwerau ar gyfer pennu safonau mewn perthynas â chadw cofnodion am gwynion ynghylch y Gymraeg.

Mae adran 39 o'r Mesur yn darparu y gall safonau a bennir gan Weinidog Cymru o dan adran 26 o'r Mesur fod yn gymwys yn benodol i bersonau penodol os bydd Gweinidogion Cymru'n awdurdodi'r comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw i gydymffurfio â'r safon.

Mae adran 150 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 26 o'r Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Pennodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau Rhif 1") safonau mewn perthynas ag ymddygiad Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae Rheoliadau Rhif 1 hefyd yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg (yn ddarostyngedig i rai amodau) i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan Reoliadau Rhif 1, i'r cyrff hynny.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a deuant i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau Rhif 1").

Mae'r Rheoliadau Diwygio'n rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau, ac yn cynnwys y prif gynghorau yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Mae adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg a bennir gan Weinidogion Cymru os bydd yn ofynnol, yn ogystal â bodloni amodau eraill, i'r person gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac os yw'r safon yn gymwys o bosibl i'r person.

Mae adran 26 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau trwy reoliadau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn gymwys yn benodol i berson trwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i roi rhybudd i'r person hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon ("hysbysiad cydymffurfio"). Pennodd Rheoliadau Rhif 1 y safonau mewn perthynas â nifer o gyrff cyhoeddus a bu iddynt alluogi'r Comisiynydd i wneud hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r gyrff hynny.

Diwygiodd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y gyrff hynny y mae'n ofynnol iddynt o bosibl gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r Rheoliadau Diwygio'n dod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir trwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fewn cwmpas y safonau a bennir gan Reoliadau Rhif 1 ac yn galluogi'r Comisiynydd i wneud hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r corff hwnnw.

Effaith hyn yw y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff sy'n atebol i gydymffurfio â Rheoliadau Rhif 1, a bod y safonau cyflenwi gwasanaethau penodedig, safonau

llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu a safonau cadw cofnodion yn gymwys iddynt o bosibl.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn:

- a. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rheoliad 1(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 o dan y diffiniad o "corff."
- b. Yn mewnosod y diffiniad o "Cyd-bwyllgor Corfforedig" yn y ddarpariaeth ddehongli yn rheoliad 1(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.
- c. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

5. Ymgynghori

Ymgynghorodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol â Chomisiynydd y Gymraeg ar y bwriad i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ystyriwyd y gwaith o gymhwyso Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg hefyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a barodd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Yn unol â'r ymagwedd at drin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un safonau a rhwymedigaethau o safbwynt y Gymraeg â'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Yn ogystal, trafodwyd cymhwyso Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg i Gyd-bwyllgorau Corfforedig nifer o weithiau yn ystod hynt Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y Senedd. Ymrwymodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu cynnwys ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'u dal gan Safonau'r Gymraeg adeg eu sefydlu neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-orllewin (Cymru) 2021 y costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys cymhwyso dyletswyddau ehangach y sector cyhoeddus megis y rhai ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021.

Tybiwyd at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mai rhywbeth a gyflawnir gan swyddogaeth corff corfforedig Cyd-bwyllgorau Corfforedig fyddai arfer dyletswyddau o'r fath ac fe gynhwysir costau arfer y dyletswyddau cyrff cyhoeddus o fewn y Rheoliadau hyn yn yr ystod o gostau a ddarperir ar gyfer y swyddogaeth corff corfforedig gyffredinol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y (De-orllewin) Cymru 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.